**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cael mewnbwn uniongyrchol i baratoi'r adroddiad a'r Atodiadau . Yn ogystal mae Cytundeb Llywodraethu 2 wedi ei pharatoi gan gyfreithwyr arbenigol sydd yn cynghori'r Partneriaid. Dylid pwysleisio hefyd fod y gwaith yma wedi bod yn destun mewnbwn proffesiynol ar draws yr holl Bartneriaid. Fe amlygir yn yr adroddiad fod Gwynedd a ròl benodol yn y Bartneriaeth fel Awdurdod Lletya a Chorff Atebol. Golygai hyn fod y Cyngor yn gweithredu fel endid cyfreithiol ar ran y Bartneriaeth ond hefyd a swyddogaeth ganolog yng ngweinyddiaeth y Grant Cynllun Twf. Mae Cytundeb Llywodraethu 2 sydd yn gytundeb cynhwysfawr yn darparu ar gyfer hyn ac yn rhoi gwarchodaeth i Wynedd drwy amodau ac indemnebau gan y Partneriaid. Mae hyn yn darparu y sicrwydd angenrheidiol i Wynedd allu cytuno i ymgymryd a'r swyddogaethau yma. Rwyf felly yn fodlon y gellir, yn briodol mabwysiadu'r' argymhellion.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf wedi cyfrannu at yr agweddau cyllidol o'r papur yma ac yn cefnogi'r penderfyniad a geisir. Fel trafodwyd yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y 5ed o Dachwedd, defnyddiwyd rhagdybiaethau darbodus wrth ledaenu'r costau benthyca dros 15 mlynedd i wneud yr ymrwymiad yn fforddiadwy i'r partneriaid. Gyda hynny, mae'n allweddol fod 'Cytundeb Llywodraethu 2' yn amddiffyn buddiannau'r awdurdod lletya a phartneriaid eraill, i'r graddau y gall partneriaid adael y bartneriaeth, ond y byddai'n rhaid iddynt barhau i gyfrannu'n ariannol dros y 15 mlynedd lawn. Yn dilyn cadarnhad y Cabinet a chymeradwyaeth y Cyngor llawn, byddaf yn cynnwys cyllidebau digonol ar gyfer y gost (sydd ym mharagraffau 5.5 - 5.7 uchod) yng nghyllideb 2021/22 y Cyngor.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllun Busnes Cyffredinol* |
| **Atodiad 2** | Cytundeb Terfynol Drafft* |
| **Atodiad 3** | Crynodeb o Gytundeb Llywodraethu 2* |
| **Atodiad 4** | Cytundeb Llywodraethu 2* |
| **Atodiad 5** | Asesiad Effaith Deddf Llesiant |
| **Atodiad 6** | Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg |
| **Atodiad 7** | Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
| **Atodiad 8** | Adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais |

**yn amodol ar olygu terfynol a phrawf ddarllen*